1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol


**E-lawlyfr 2**

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

**Adnodd 6**

# *Sosialaeth: Ffrydiau Amrywiol*

## Canllaw i Athrawon


International Politics Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, ***Sosialaeth: Ffrydiau Amrywiol***, yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol***. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.3.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Sosialaeth'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyniad i ddwy ffrwd Sosialaidd allweddol, sef Marcsiaeth a Democratiaeth Gymdeithasol. Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 5, Sosialaeth: Nodweddion Allweddol, sy'n cyflwyno rhai o'r elfennau sosialaidd pwysig sydd hefyd yn cael eu rhestru yn adran 3.3.1 o'r fanyleb.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

## Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

Cynigia'r llawlyfr gwybodaeth gyflwyniad cyffredinol i ddwy ffrwd Sosialaidd allweddol ac fe wneir hynny ar sail strwythur digon syml.

I ddechrau, trafodir rhai o brif nodweddion Marcsiaeth, sef y ffrwd o sosialaeth a ddatblygodd ar sail gwaith Karl Marx ac a gafodd ei dylanwadu'n ddiweddarach gan waith unigolion megis Lenin. Er eglurder i'r disgyblion, rhennir y drafodaeth yn bedair rhan. I ddechrau, cynigir amlinelliad o brif nodweddion y feirniadaeth Farcsaidd o weithrediad cyfalafiaeth. Yn ail, cyflwynir hanfodion y dehongliad materol o hanes er mwyn egluro pam y daeth Marx i'r casgliad bod cwymp y gyfundrefn gyfalafol yn anochel. Yn drydydd, eir ati i drafod y math o amgylchiadau a fyddai'n peri i'r dosbarth gweithiol droi'n rym chwyldroadol a fyddai'n codi yn erbyn y drefn gyfalafol a hefyd y math o gamau y byddai angen eu cymryd er mwyn sefydlu'r gymdeithas gomiwnyddol amgen. Yn bedwerydd, eglurir bod Lenin wedi mynd ati i gwestiynu dadleuon Marx ynglŷn a chwymp anochel cyfalafiaeth. Esgorodd hyn ar y ddadl Farcsaidd-Leninaidd sy'n mynnu bod angen i grŵp dethol o chwyldroadwyr ymroddedig drefnu'n wleidyddol er mwyn cymell y chwyldro, yn hytrach na dim ond disgwyl amdano, sef llwybr a ddilynwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif yn Rwsia (1917), Tsieina (1949) a Ciwba (1959).

Yn ail, trafodir Democratiaeth Gymdeithasol, gan egluro ei bod yn ffrwd fwy cymedrol o sosialaeth a ddatblygodd yn wreiddiol yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ar bymtheg. Eglurir bod dau fater penodol yn ganolog i'r anghydweld rhwng Democratiaeth Gymdeithasol a Marcsiaeth. I ddechrau mae pa fath o *ddulliau* y dylai sosialwyr eu defnyddio er mwyn cyrchu'r gymdeithas well, ac yn benodol y ffaith fod Democratiaid Cymdeithasol wedi dod i gredu y gellid gwneud hynny trwy gyfrwng dulliau democrataidd yn hytrach na thrwy alw am chwyldro. Yn ail, mae pa fath o *amcanion* y dylai sosialwyr eu cyrchu, ac yn benodol y ffaith fod Democratiaid Cymdeithasol wedi dod i gredu bod cyfalafiaeth yn gyfundrefn fwy hyblyg nag y tybiodd Marx ac felly y gellid sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ystyrlon trwy gyflwyno diwygiadau yn hytrach na cheisio dymchwel y drefn yn llwyr.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Mae tasgau cyntaf y llawlyfr gwaith yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddysgu mwy ynglŷn ag ystod o feddylwyr a gwleidyddion Sosialaidd pwysig a hefyd i ystyried pa draddodiad Sosialaidd sy'n perthyn yn fwyaf agos i'w safbwynt gwleidyddol hwy. Amcan y gweithgareddau dilynol yw rhoi cyfle i'r disgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o brif nodweddion y ffrydiau Sosialaidd gwahanol a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth a hefyd cymharu â chyferbynnu'n nodweddion hyn. Mae'r gweithgareddau'n galw am restru pwyntiau perthnasol mewn tablau a hefyd yn galw am lunio atebion ysgrifenedig sy'n amrywio o ran eu hyd.

### DARLLEN PELLACH

Barbara Goodwin, *Using Political Ideas* (Chichister, John Wiley & Sons Ltd, 2014), pennod ar Farcsiaeth, tud 73-106 a phennod ar Sosialaeth 107-32.

Andrew Vincent, *Modern Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Sosialaeth, tud 83-110.

Howard Williams, *Y Meddwl Modern: Marx* (Gwasg Gee/Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol), e-argraffiad ar gael o lyfrgell adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1758~4v~69mREL7f

W. J. Rees, *Y Meddwl Modern: Lenin* (Gwasg Gee/Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol), e-argraffiad ar gael o lyfrgell adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1412~4i~hewGA5j8